

**CYNGOR
ADNEWYDDU'R
ECONOMI**

**FFRAMWAITH
ECONOMAIDD**

1. Cyflwyniad

1.1 Datblygwyd y ddogfen hon trwy gyfrwng Cyngor Adnewyddu'r Economi. Yn ogystal, cafwyd cydweithio ar draws Adrannau perthnasol y Llywodraeth i sicrhau ymagwedd hollol gydgysylltiedig ar gyfer cyflawni yn unol ag ymrwymïadau'r Llywodraeth tuag at swyddi a thwf.

1.2 Nid yw'r Fframwaith yn Strategaeth Economaidd newydd. Mae'n offeryn y gall y Cyngor ei ddefnyddio i dywys ei waith ac i gynnig dealltwriaeth well o bolisïau a chamau gweithredu i annog swyddi a thwf yn economi Cymru. Yn ogystal, bydd yn nodi'r polisïau a'r blaenoriaethau a fydd yn helpu i baratoi Cymru ar gyfer y cyfleoedd a'r heriau wrth i'r economi dyfu.

1.3 Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar dair thema graidd – **Busnes, Pobl a Lle** – ac mae'n cyflwyno datganiad cadarn a chyd-destun strategol ar gyfer y Fframwaith. Mae'n ailddatgan ymrwymïadau parhaus ac yn amlinellu naratif eglur ar gyfer blaenoriaethau economaidd sy'n adlewyrchu amgylchedd economaidd Cymru. Yn hyn o beth, mae'n cynnig angor cryf i gyflawni twf hirdymor, gan alluogi ymagwedd hyblyg ar yr un pryd i ymateb i newidiadau parhaus yn yr economi.

2. Datganiad Strategol

2.1 Mae twf economaidd, swyddi cynaliadwy a threchu tlodi wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu, a chyflawni yn erbyn y rhain yw blaenoriaeth bennaf y Llywodraeth.

2.2 Mae'r heriau sydd gerbron economi Cymru yn driphlyg. Yn gyntaf, ceir materion strwythurol sydd wedi ymwreiddio a datblygu dros genedlaethau, ac sy'n parhau i nodweddu canlyniadau economaidd ar draws Cymru. Roedd y materion hyn yn bodoli cyn y dirwasgiad ac maent yn ffactorau eglur sy'n cyfrannu at sefyllfa economaidd gymharol Cymru – mae'r rhain yn cynnwys y bwlch cynhyrchiant, y proffil demograffig, cyfraddau cyflogaeth, ac amrywiadau gofodol rhwng ardaloedd gwledig a threfol.

2.3 Yn ail, ceir ystod eang o heriau strategol y mae Cymru a gwledydd datblygedig eraill yn eu hwynebu, er enghraifft, integreiddio cynyddol yr economi fyd-eang, ailstrwythuro cyflogaeth ar draws sectorau, a phwysigrwydd cynyddol gwybodaeth, sgiliau a seilwaith.

2.4 Yn drydydd, caiff y gwaith o lunio agenda cadarn ac arbennig i Gymru ei osod yn erbyn cysoni sylweddol o ran polisi cyllidol gan Lywodraeth y DU, ac o ganlyniad, gwelir gostyngiad mewn lefelau gwariant ar draws y DU. Yn ogystal, nid yw Cymru wedi ei diogelu rhag pwysau a cheryntau economaidd ehangach.

2.5 O ystyried yr amgylchedd economaidd bregus a'r digwyddiadau a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, bu angen polisïau a chymau gweithredu er mwyn rhoi sylw i'r heriau wrth iddynt godi. Mae'n iawn ein bod wedi canolbwyntio ar leddfu effeithiau gwaethaf dirwasgiad na welwyd ei debyg erioed o'r blaen, o ran ei hyd a'i ddyfnder.

2.6 Er ei bod yn ymddangos bod yr economi yn dechrau adfer, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch trywydd yr adferiad hwnnw ac mae angen dadwneud cryn dipyn o'r difrod a achoswyd gan y dirwasgiad.

2.7 Rhaid adlewyrchu'r holl ffactorau hyn mewn golwg 'normal newydd' ar gyfer economi Cymru, sy'n gofyn i ni edrych ar y byd yn y tymor byr a'r tymor hir ar yr un pryd, er mwyn darganfod datrysiadau sy'n hyblyg ar gyfer dau ben y sbectrwm. Mae hyn yn creu heriau, ond cyfleoedd hefyd i fwrw golwg ffres ar yr economi a chynnig eglurder o'r newydd i'r ymrwymïadau i ddarparu swyddi a thwf.

2.8 Mae'r cydbwysedd rhwng polisïau ac ymyriadau yng Nghymru wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf i adlewyrchu'r oes sy'n newid yn gyflym a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu, ac mae gwrandio ar ac ymateb i anghenion busnesau a rhanddeiliaid wedi bod yn allweddol i hyn. Felly, mae'r gallu i barhau i ymateb mewn ffordd effeithiol yn y tymor byr, gan osod sylfeini cadarn ar gyfer twf cynaliadwy yn y dyfodol, yn parhau i fod yn hollbwysig. Adlewyrchir y cydbwysedd newidiol hwn rhwng ymyriadau polisi yn y tymor

byr, y tymor canolig a'r tymor hir yn y farchnad lafur, lle y mae'n rhaid i ffigurau diweithdra sy'n gostwng gyd-fynd gyda mesurau hirdymor nawr i gryfhau'r farchnad lafur, er mwyn darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy ac o werth uwch, law yn llaw gydag amgylchedd sy'n cynorthwyo buddsoddiad.

2.9 Mewn economi fyd-eang sy'n fwyfwy cystadleuol a chyfnewidiol, mae angen i Gymru feddu ar hinsawdd fusnes gyffredinol sy'n ddeniadol ac sy'n hybu buddsoddiad. Gan gydnabod hyn, mae'r Llywodraeth wedi manteisio ar gyngor gan y gymuned fusnes a phartneriaid wrth ddatblygu'r sectorau ac agweddau eraill ar gymorth ar gyfer byd busnes. Darparwyd cyngor tebyg hefyd wrth ddatblygu Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter ac Ardaloedd Twf Lleol – ymagwedd ofodol sy'n canolbwyntio ymdrechion ar draws Llywodraeth Cymru a gwaith ehangach mewn partneriaeth. Mae hyn yn datblygu egwyddorion y Rhaglen Adnewyddu Economaidd, gan gynrychioli dimensiwn newydd i bolisi economaidd a gweithgarwch cyflawni yng Nghymru.

2.10 Yn ogystal, mae'r fframweithiau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael eu datblygu gyda Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd cysylltiedig. Mae Canllawiau Cymorth Rhanbarthol a map Ardaloedd a Gynorthwyr y DU yn cael eu hadolygu hefyd. Bydd y rhain yn dylanwadu ar sut caiff cyllid Ewropeaidd ei ddefnyddio i gynorthwyo datblygiad economaidd ar draws Cymru dros y ddegawd nesaf, gan gynyddu'r angen am ymagwedd Llywodraeth gyfan law yn llaw â deialog ystyrlon gyda'r gymuned fusnes ac eraill.

2.11 Mae cryfhau'r economi ym maes peirianeg, technoleg a gweithgynhyrchu yn her strategol allweddol. Mae gennym nifer o gwmnïau llwyddiannus yng Nghymru a'r nod yw datblygu hyn trwy helpu cwmnïau o bob maint sy'n bodoli eisoes i dyfu a denu busnesau newydd a diwydiannau newydd i Gymru. Rydym yn gweithio gyda diwydiant er mwyn cynorthwyo hyn a'r rhyngddibyniaethau cynyddol rhwng technoleg a gweithgynhyrchu.

2.12 Mae angen cymryd cam ymhellach gyda hyn i ymateb i heriau economi lle mae'r materion yn gymhleth ac yn gyfnewidiol. Y consensws bras yw nad heriau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig yw'r rhain. Mae llwyddiant economaidd yn dibynnu ar fwy fyth o gadernid, creadigrwydd ac ystwythder, sy'n cynnwys y gymuned fusnes a chyrff a sefydliadau cyflawni allweddol eraill yn cydweithio. Mae angen gwneud penderfyniadau anodd sy'n gofyn am ffordd o feddwl ffres ynghylch sut yr ydym yn nodi, yn alinio ac yn defnyddio adnoddau, gan ddefnyddio'r pwerau a'r ysgogiadau cynyddol a reolir gennym. Yn syml, nid *yr hyn* yr ydym yn ei gyflawni yn unig, ond *sut* yr ydym yn ei gyflawni.

2.13 Un enghraifft o'r ffordd y mae heriau o'r fath yn cael sylw yw'r agenda sgiliau. Mae Datganiad Polisi newydd ynghylch Sgiliau yn nodi gweledigaeth ar gyfer cyflogaeth a pholisi sgiliau yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf, gan gynnwys y camau gweithredu cyfrifol y mae angen i'r holl randdeiliaid eu cymryd er mwyn datblygu system sgiliau ôl-19 cryf, ymatebol a chynaliadwy. Yn ogystal, mae'r Datganiad yn cydnabod y dewisiadau anodd o'n blaenau os yw Cymru yn mynd i gyflawni'r sgiliau angenrheidiol i godi lefelau cynhyrchiant

a lleihau'r rhwystrau i gyflogaeth, gan ganolbwyntio ar bedwar maes y rhoddir blaenoriaeth iddynt: Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf; Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol; Sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi; a Sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n hymagwedd ar gyfer sectorau, sy'n helpu i nodi, datblygu a chyflawni'r sgiliau craidd sy'n torri ar draws y sectorau ac y maent yn bwysig i'r economi yn gyffredinol, yn hytrach na bod yn berthnasol i unrhyw sector arbennig yn benodol.

2.14 Ceir cyswllt agos rhwng addysg a sgiliau, ac mae'r pontio o addysg i gyflogaeth yn cynnwys y gymuned fusnes yn yr agenda sgiliau. Mae'r berthynas rhwng addysg, cyflogaeth, sgiliau a'r gymuned fusnes yn un a fydd yn parhau i gael ei meithrin a'i datblygu.

2.15 Mae ymagwedd sectorau Llywodraeth Cymru yn ceisio cynnal swyddi o ansawdd, ond mae fframwaith cyfraith gyflogaeth a rheoliadol, nad yw wedi cael ei ddatganoli, yn bwysig hefyd. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl wrth ddylanwadu ar y ffactorau allanol hyn o ystyried eu heffaith ar Gymru. Un enghraifft o hyn yw'r ymgysylltu a welwyd yn ddiweddar gydag ymgynghoriad yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ynghylch contractau dim oriau. Gallai gwaith ar lefel y DU ac UE i ddylanwadu ar a gwella'r fframwaith rheoliadol mewn meysydd megis cyflogaeth, cynllunio a'r amgylchedd ddwyn manteision economaidd sylweddol.

2.16 Caiff y Fframwaith ei gynorthwyo gan ddwy set o egwyddorion craidd er mwyn tywys buddsoddiad a chyflawniad:

Egwyddorion yr Ymagwedd – tywys ein hymagwedd gyffredinol tuag at weithgarwch economaidd:

- Ymagwedd gynaliadwy tuag at ddatblygu economaidd sy'n ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sydd wedi'i gwreiddio mewn ffocws diwyro ar swyddi a thwf;
- Hyblyg ac ystwyth er mwyn rhoi sylw i heriau hirdymor yn ogystal â materion hanfodol yn y tymor byr;
- Llwyf ymwybodol o heriau economaidd macro a micro;
Wedi'i seilio ar ymagwedd partneriaeth gadarn;
Yn gwneud y defnydd gorau o ysgogiadau cyllido/alinio adnoddau, e.e. Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn gysylltiedig â phecynnau buddsoddi ehangach;
- Yn gwneud y defnydd gorau o bwerau ariannol mwy;
Yn helpu trechu tlodi trwy gyfrwng sgiliau a chyflogaeth.

Egwyddorion Herio – sicrhau y blaenoriaethir camau gweithredu i gael yr effaith economaidd gorau posibl:

- Cyfrannu at swyddi a thwf;
Effaith gronol / cysondeb gyda pholisïau a phrosesau eraill;
Gwerth am Arian.

3. Ffurio ein Hymagwedd

3.1 Y casgliadau economaidd sy'n sail i Adnewyddu Economaidd o hyd yw bod buddsoddiadau mewn seilwaith, sgiliau, arloesedd a gwella'r amgylchedd busnes a chymorth wedi'i dargedu yn hanfodol er mwyn paratoi Cymru ar gyfer y dasg o wynebu heriau strategol a strwythurol dros y tymor canolig i'r tymor hwy. Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle bydd ymyrraeth yn ychwanegu gwerth i helpu llunio'r darlun economaidd i Gymru. Dylid ei hystyried fel dogfen sy'n esblygu ac a fydd yn adlewyrchu gweithgareddau pwysig yn well ar ôl iddynt gael eu datblygu ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, datblygu Dinas-ranbarthau, yr ymateb i Gomisiwn Williams a'r gwaith ar y Bil Cynllunio (Cymru).

3.2 Felly, mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar dair thema graidd:

Busnes (Cyfleoedd Cyflogaeth)

3.3 Yr amcan cyffredinol dan y thema hon yw cryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnesau yng Nghymru i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy.

3.4 Caiff tri chanlyniad allweddol eu cynorthwyo dan y thema Busnes:

- Nifer uwch o fusnesau, eu goroesiad a'u twf
- Cynhyrchiant uwch a thwf o ran cyflogaeth ar draws busnesau
- Gweithgarwch cynyddol i fasnacheiddio gwaith ymchwil ac arloesedd.

3.5 Caiff y rhain eu cynorthwyo gan *weithgareddau ac ysgogiadau polisi, mesurau gweithgarwch a dangosyddion cynnydd* y nodir eu manylion yn yr adran nesaf.

Pobl – (Sgiliau)

3.6 Caiff pedwar canlyniad allweddol eu cynorthwyo dan y thema Pobl:

- Sgiliau ar gyfer Swyddi a Thwf
- Sgiliau sy'n ymateb i'r angen lleol
- Sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr
- Sgiliau ar gyfer cyflogaeth.

3.7 Caiff y rhain eu cynorthwyo gan *weithgareddau ac ysgogiadau polisi, mesurau gweithgarwch a dangosyddion cynnydd* y nodir eu manylion yn yr adran nesaf.

Lle – (Cysylltedd)

3.8 Caiff tri chanlyniad allweddol eu cynorthwyo dan y thema Lle:

- Gwell cysylltedd trafnidiaeth
- Mwy o gyfleoedd i fanteisio ar rwydweithiau cyfathrebu o'r radd flaenaf
- Mwy o gyfleoedd cyflogaeth trwy gyfrwng datblygiad gofodol strategol.

3.9 Caiff y rhain eu cynorthwyo gan *weithgareddau ac ysgogiadau polisi, mesurau gweithgarwch a dangosyddion cynnydd* y nodir eu manylion yn yr

adran nesaf.

4. Mesur Gweithgarwch a Chynnydd

4.1 Nid yn unig y mae nifer o ddylanwadau allanol wedi llunio sut mae economi Cymru yn datblygu, a byddant yn parhau i ddylanwadu ar hyn, ond mae'n rhaid i'r heriau economaidd cymhleth hirdymor yr ydym yn eu hwynebu gael sylw ar y cyd. Mae angen i Lywodraeth Cymru, y gymuned fusnes, partneriaid cymdeithasol a chyrff cyflawni allweddol eraill barhau i gydweithio gyda diben o'r newydd er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn a parhaol.

4.2 Yn ogystal, mae angen i ni ystyried yn ofalus sut ydym yn asesu cynnydd yn erbyn y canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni. Yn yr adran ganlynol, nodir mesurau gweithgarwch a dangosyddion cynnydd wrth ymyl y canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cynorthwyo. Er bod angen i'n gweithgareddau anelu i helpu cyflawni'r deilliannau, a dylai'r mesurau cynnydd fod yn rhai y teimlwn y gallwn gael dylanwad arnynt, ni ddylid ystyried y naill na'r llall fel cyfrifoldeb un sefydliad neu grŵp. Dylent bennu cyd-destun eglur ar gyfer yr ymdrechion ar y cyd i roi sylw i'r cyfleoedd a'r heriau economaidd yr ydym yn eu hwynebu.

4.3 Felly, diben y Matrics Ymyrraeth sy'n dilyn yw cynnig dangosyddion er mwyn helpu rhoi ffocws i'r Fframwaith a sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y canlyniadau yr ydym yn eu cefnogi.

5. Matrics Ymyrraeth

THEMA RhL	CANLYNIADAU A GEFNOGIR	YSGOGIADAU A GWEITHGAREDDAU POLISI	MESURAU GWEITHGARWCH (I GYNNWYS)	DANGOSYDDION CYNNYDD (I GYNNWYS)
CRYFHAU'R AMODAU A FYDD YN GALLUOGI BUSNESAU YNG NGHYMRU I GREU SWYDDI A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY				
BUSNES Cynorthwyo'r Economi a Busnesau	Nifer uwch o fusnesau, eu goroesiad a'u twf	Cyflawni yn erbyn strategaethau sectorau Caffael yn y sector cyhoeddus Gwella'r cyfleoedd i fanteisio ar gyllid Cynorthwyo mewnfuddsoddi Cynorthwyo entrepreneuriaeth Ardrethi annomestig	Gwerth contractau a roddir ar GwerthwchiGymru; Cymell buddsoddiad; Creu mentrau; Cynnydd yn lefel allforion; Dangosyddion swyddi UKTI.	Nifer yr holl fentrau; Cyflogaeth gan bob menter; Trosiant pob menter; Cyfrif nifer y mentrau newydd sy'n cael eu sefydlu; Goroesiad mentrau.
	Cynhyrchiant uwch a thwf o ran cyflogaeth ar draws busnesau	Cynorthwyo cwmnïau angori a chadwyni cyflenwi Annog masnach ac allforion Galluogi a chynorthwyo gweithgarwch i fanteisio ar TGCh Annog defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a thwf gwyrdd Darparu cynlluniau Cyllid Busnes Cynorthwyo Ardaloedd Twf Lleol a Menter	Swyddi'n cael eu creu, eu diogelu a'u cynorthwyo; Metrigau perfformio AM; Mentrau yn manteisio ar seilwaith gwell; Mentrau yn mabwysiadu Systemau Rheoli Amgylcheddol sy'n gwella.	Trosiant fesul cyflogai; Niferoedd mewn cyflogaeth a throsiant busnes; Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd; Benthycia i a busnesau o faint canolig (BBaCh).
	Gweithgarwch cynyddol i fasnacheiddio gwaith ymchwil ac arloesedd	Cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Gwyddoniaeth i Gymru Cynorthwyo ymagwedd arbenigo ddeallus Annog cydweithio diwydiannol Cynorthwyo trosglwyddo technoleg o SAU Gwella partneriaethau a chysylltiadau rhyngwladol	Ymchwil a Datblygu ar y cyd; Cyllid wedi ei sicrhau; Buddsoddiad wedi ei gymell; Lansio cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well.	Gwariant busnesau ar Ymchwil a Datblygu; Nifer y mentrau arloesedd gweithredol; Cyfran gyfartalog cyfanswm y trosiant gan arloesedd newydd ac arloesedd o ran cynnyrch.

THEMA RhL	CANLYNIADAU A GEFNOGIR	YSGOGIADAU A GWEITHGAREDDAU POLISI	MESURAU GWEITHGARWCH (I GYNNWYS)	DANGOSYDDION CYNNYDD (I GYNNWYS)
CRYFHAU'R AMODAU A FYDD YN GALLUOGI BUSNESAU YNG NGHYMURU I GREU SWYDDI A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY				
POBL Gwella Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth	Sgiliau ar gyfer Swyddi a Thwf	Cyflwyno cronfa hyblyg sy'n targedu anghenion sgiliau a recriwtio cwmnïau sy'n bwysig ar lefel strategol; Parhau i gryfhau trefniadau darparu ar y cyd i gyflwyno sgiliau, er enghraifft ar draws sectorau Addysg Bellach ac Uwch, er mwyn bodloni'r galw ymhlith cyflogwyr; Ymestyn cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar lefel uwch; Defnyddio caffael fel llwybr i hyrwyddo datblygiad sgiliau trwy gysylltu gyda chymalau cymdeithasol	Cyfleoedd fframwaith ar lefel uwch mewn prentisiaethau; Nifer y cyflogwyr sy'n cael eu cynorthwyo gan gyllid AdAS; Nifer yr unigolion sy'n manteisio ar gyfleoedd sgiliau ar lefel uwch.	% y boblogaeth sy'n gweithio y mae ganddynt gymhwyster ar lefel 4 neu'n uwch; % y boblogaeth sy'n gweithio y mae ganddynt gymhwyster ar lefel 3 neu'n uwch; Cyfran uwch prentisiaethau 16-24 a chyfran uwch sgiliau ar lefel uwch; Nifer y swyddi a gafodd eu creu/diogelu.
	Sgiliau sy'n ymateb i'r angen lleol	Gweithredu model cyflogaeth a darparu sgiliau mwy syml a hwylus trwy gyfrwng Porth Sgiliau newydd i gyflogwyr sy'n dymuno manteisio ar gymorth gyda sgiliau; Ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr ar lefel leol, a manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad lafur ryngwladol; Cynorthwyo darpariaeth hyfforddiant arloesol ac o ansawdd uchel trwy gryfhau'r safonau proffesiynol a chofrestru ar gyfer athrawon/aseswyr	Nifer y cyfranogwyr/ cyflogwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng Porth Sgiliau AdAS; Niferoedd y cyflogwyr sy'n cael eu cynorthwyo gan y ddarpariaeth sgiliau sydd ar gael yn lleol; Nifer yr aseswyr a'r tiwtoriaid cofrestredig.	Data ynghylch cyrchfannau pobl ifanc (% sy'n sicrhau cyflogaeth ar draws Cymru; Nifer y swyddi a gafodd eu creu/ diogelu.
	Sgiliau a werthfawrogrir gan gyflogwyr	Galluogi cyflogwyr i fanteisio ar sgiliau eu gweithlu trwy ymgorffori arferion Gwaith Perfformiad Uchel; Gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu ac i adolygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC); Cynorthwyo cyflogwyr i gydnabod gwerth sgiliau ar draws eu gweithlu, ac i fuddsoddi ynddynt	Sefydlu Paneli Cyngori Cymwysterau Sector sy'n ymateb i angen cyflogwyr; Nifer o gyflogwyr yn cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng cyllid AdAS.	Nifer o swyddi yn cael eu creu/diogelu; Nifer o gyflogwyr yn cael eu hasesu fel rhai sy'n gweithredu arferion HPW; Lefel y buddsoddiad gan gyflogwyr mewn sgiliau.
	Sgiliau ar gyfer cyflogaeth	Darparu gwybodaeth i unigolion, y mae angen iddynt ei chael er mwyn manteisio ar gymorth cyflogaeth a gwella'u sgiliau trwy gyfrwng y Porth Sgiliau; Cynorthwyo unigolion i wella Sgiliau Hanfodol; Ailbennu Addewid y Cyflogwr er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni rôl allweddol wrth gynyddu buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau, gan gynnwys Sgiliau Hanfodol	Nifer yr ymarferwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth sgiliau trwy gyfrwng y Porth Sgiliau; Nifer y cyfranogwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol.	Data ynghylch cyrchfan pobl ifanc (% i gyflogaeth); Nifer y swyddi sy'n cael eu creu gan raglenni cyflogaeth AdAS, ee Twf Swyddi Cymru; Gostyngiad yng nghanran yr oedolion sy'n gweithio y mae ganddynt angen o ran Sgiliau Hanfodol.

THEMA RhL	CANLYNIADAU A GEFNOGIR	YSGOGIADAU A GWEITHGAREDDAU POLISI	MESURAU GWEITHGARWCH (I GYNNWYS)	DANGOSYDDION CYNNYDD (I GYNNWYS)
CRYFHAU'R AMODAU A FYDD YN GALLUOGI BUSNESAU YNG NGHYMURU I GREU SWYDDI A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY				
LLE Gwella ein Seilwaith	Gwell cysylltedd trafndiaeth	Gwella'r cyfleoedd i fanteisio ar safleoedd strategol ar gyfer swyddi/cludo nwyddau Gwella'r cyfleoedd i fanteisio ar aneddiadau allweddol Galluogi pobl i deithio i'r gwaith Rheolaeth effeithiol a diogel rhwydwaith y cefnffyrdd a'r traffyrdd Buddsoddiad er mwyn gwella seilwaith trafndiaeth Buddsoddiad mewn gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus	Buddsoddiad mewn gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth; Swyddi yn cael eu creu, eu diogelu a'u cynorthwyo o ganlyniad i fuddsoddiad.	Data ynghylch perfformiad a bodlonrwydd ar gyfer gwasanaethau rheilffordd a bysiau.
	Mwy o gyfleoedd i fanteisio ar rwydweithiau cyfathrebu o'r radd flaenaf	Cynyddu'r cyfleoedd i fanteisio ar rwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf Gwella'r signal ar gyfer ffonau symudol ar draws Cymru	Safleoedd Cyflymu Cymru yn trosglwyddo data; Cynnydd o ran y signal symudol.	Signal busnes band eang Band Eang y Genhedlaeth Nesaf ar draws Cymru; Nifer y busnesau sy'n manteisio ar wasanaethau Band Eang y Genhedlaeth Nesaf; Y signal ar gyfer ffonau symudol ar draws Cymru.
	Mwy o gyfleoedd cyflogaeth trwy gyfrwng datblygiad gofodol strategol	Cynorthwyo'r economi trwy gyfrwng gweithgarwch diwygio cynllunio Annog twf trwy gyfrwng adfywio – Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Cydwethio ar ddatblygu Dinas-ranbarthau Gweithgarwch sy'n ymwneud ag eiddo i gynorthwyo swyddi a thwf Buddsoddiad mewn seilwaith strategol – Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru Datblygu / cynorthwyo tai preifat a chymdeithasol	Darparu tir; Arwynebedd llawr yn cael ei greu; Buddsoddiad yn cael ei ysgogi; Dyraniadau cyfalaf yn erbyn blaenoriaethau; Rhoi hwb i fuddsoddiad trwy gyfrwng cyllid arloesol; Tai cymdeithasol ychwanegol wedi'u creu.	Gorchmynion Datblygu Lleol mewn grym / wedi cael eu mabwysiadu; Incymau rhent cyffredinol; Cyfraddau deiliadaeth; Adnewyddu adeiladau er mwyn eu defnyddio eto; Nifer yr ymwelwyr â chanol trefi; Tai sy'n cael eu cwblhau; Busnesau sy'n sicrhau safleoedd.

6. Ffocws ar Gyflawni

6.1 Cymerwyd camau arwyddocaol i wella sefyllfa busnesau yng Nghymru ac i helpu cynnig manteision gwirioneddol a pharhaus i economi Cymru.

6.2 Dros y blynyddoedd diwethaf, er mwyn ystyried yr amgylchiadau economaidd anodd, cymerwyd camau i roi sylw i'r pwysau uniongyrchol y mae busnesau ar draws Cymru yn ei wynebu, law yn llaw gyda'n camau gweithredu dros y tymor hwy er mwyn bodloni heriau strwythurol a strategol o fewn cyd-destun ariannol anodd.

6.3 Mae'r camau gweithredu i fyndi'r afael â'r rhwystrau sy'n atal buddsoddi yn y tymor byr ac i helpu busnesau trwy'r heriau a'r ansicrwydd a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:

- Ei gwneud yn haws i fusnesau fanteisio ar gyllid;
- Ei gwneud yn haws i sefydlu a thyfu busnes;
- Cynorthwyo buddsoddiad a masnach rhyngwladol;
- Hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid.

6.4 Mae camau gweithredu i gynorthwyo twf a rhoi sylw i'r materion strategol a strwythurol yn yr economi yn y tymor canolig i'r tymor hwy yn cynnwys:

- Cynorthwyo economi mwy cytbwys a chynaliadwy;
- Datblygu swyddi a thwf lleol ar gyfer yr hirdymor;
- Gwella'n gweithgarwch ym maes gwyddoniaeth ac arloesedd;
- Cynorthwyo seilwaith o ansawdd uchel.

6.5 Yn gyffredin â themâu craidd y ddogfen hon, gellir crynhoi'r camau gweithredu hyn, a'u rhoi yn y grwpiau canlynol:

A) Busnes – cynorthwyo'r economi a busnesau

B) Pobl – gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth

C) Lle – gwella ein Seilwaith.

6.6 Nid yw'r crynodeb isod o'r gweithgarwch a'r gwaith cyflawni yn rhestr gyflawn o'r holl weithgareddau a gynhaliwyd er mwyn cynorthwyo swyddi a thwf. Ei ddiben yw amlygu rhywfaint o'r gweithgarwch arwyddocaol y mae'r Fframwaith yn ei ddatblygu.

A) Busnes – Cynorthwyo'r Economi a Busnesau

Cynyddu nifer y busnesau, eu goroesiad a'u twf

- Datblygwyd **Cynllun Cyflawni Sectorau** sy'n nodi heriau, cyfleoedd a blaenoriaethau er mwyn tywys ein camau gweithredu.
- Cynhaliwyd **adolygiad annibynnol o argaeledd cyllid ar gyfer BBaCh**. Bydd yn cyfrannu at ddatblygu polisi yn y maes hwn.
- Rydym wedi gwella ein cymorth gydag Ardrethi Busnes trwy gyfrwng nifer o fentrau gan gynnwys **Cynllun Ardrethi Busnes mewn Ardaloedd Menter, Cynllun Ar Agor am Fusnes a'r Cynllun Datblygiadau Newydd**.
- Yn ogystal, rydym wedi lansio cynllun sy'n werth £200,000 er mwyn talu am gostau cychwynnol **Ardaloedd Gwella Busnes** yng Nghymru.
- Mae ein **Gwasanaeth Cychwyn Busnes** yn cynorthwyo busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu ar draws Cymru, ac estynnwyd prosiect **Busnesau Newydd a Chanddynt Botensial Mawr** er mwyn cynorthwyo hyd at naw deg o fentrau busnes twf uchel newydd.
- Rydym yn parhau i ddarparu **cyngor a chymorth i fusnesau**, gan gynnwys trwy gyfrwng Llinell Gymorth Busnes Cymru.

Cynyddu Cynhyrchiant a Thwf mewn Cyflogaeth ar draws Busnesau

- Sefydlwyd gweithdrefnau rheoli cyfrifon ffurfiol ar gyfer pob **cwmni angori**.
- Mae **Cronfa Twf Economaidd Cymru** wedi ymrwymo £30 miliwn er mwyn cynorthwyo 120 o brosiectau, gyda'r potensial i greu 1800 o swyddi newydd a diogelu 1600.
- Disgwylir i **Gronfa Fuddsoddi BBaChau Cymru, sy'n werth £40m**, gynorthwyo'r broses o greu dros 4,000 o swyddi. Mae'r gweithgarwch hwn yn cyd-fynd gyda chronfa **JEREMIE** sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, ac y mae wedi buddsoddi tua £120 miliwn mewn dros 500 o fusnesau, gan greu a diogelu dros 8,000 o swyddi.
- Rydym wedi targedu cyfleoedd i sectorau twf penodol i fanteisio ar help ariannol ychwanegol. Mae enghreifftiau yn cynnwys **Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru; Cronfa Twf BBaChau Uwch Beirianeg a Deunyddiau; Cronfa Datblygu Digidol; a Chronfa Twf BBaChau Ynni a'r Amgylchedd**. Yn ogystal, gwnaethom sefydlu **Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau**.
- Rydym wedi datblygu ein hymagwedd tuag at **fewnfuddsoddi a masnach** er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn archwilio cyfleoedd mewn

marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg a marchnadoedd sefydledig y maent wedi rhoi mewnfuddsoddiad ac y maent wedi croesawu cyfleoedd masnachu.

- Rydym wedi datblygu'r **Strategaeth Twristiaeth – Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020** newydd, ac rydym yn parhau i ddarparu cymorth trwy gyfrwng **Cynllun Cymorth Buddsoddiad mewn Twristiaeth (TISS)**.

Mwy o Fasnacheiddio Gwaith Ymchwil ac Arloesedd

- Cynnydd wrth gyflawni ymrwymadau allweddol **Gwyddoniaeth i Gymru**, gan gynnwys Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol ym maes gwyddorau bywyd ac iechyd, uwch beirianeg a deunyddiau, a charbon isel, ynni ac amgylchedd, gyda buddsoddiad o dros £21 miliwn at ei gilydd.
- Mae **Rhaglen Arloesedd Busnes** yn darparu twf a gwelliant ym maes busnes trwy gyfrwng cymorth technoleg ac arloesedd. Cefnogwyd dros 700 o brosiectau, gan arwain at lansio 369 o gynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd.

B) Pobl – Gwella Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth

- Rydym wedi sefydlu **Twf Swyddi Cymru** er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd swyddi. Hyd yn hyn, mae dros 10,000 o swyddi wedi cael eu creu.
- Yn ystod 2011/12, gwelwyd nifer y prentisiaethau a gwblhawyd yn llwyddiannus yn codi 13,230 – gan gynnal cyfradd lwyddo o dros 80%. Mae hyn yn cymharu gyda 12,545 yn 2007/08 – cyfradd lwyddo o 66%. Mae ffigurau dros dro yn dangos mai nifer y rhaglenni dysgu **Prentisiaeth** a gychwynwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2013 oedd 10,435, o'i gymharu gyda 5,260 rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2012.
- Mae £20m ychwanegol y flwyddyn wedi cael ei ymrwymo i gynorthwyo hyfforddiant **prentisiaeth** tan 2016. Mae hyn yn galluogi amrediad o **Brentisiaethau Uwch** sy'n gysylltiedig gyda phynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) ac mae'n sicrhau bod rhagor o unigolion yng Nghymru yn dilyn llwybr dysgu seiliedig ar Waith ar Lefel 4 ac uwch nag erioed o'r blaen ar raglen Prentisiaeth Uwch. Byddwn yn parhau i gynorthwyo a buddsoddi mewn prentisiaethau sy'n rhoi hwb i gynhyrchiant trwy alluogi busnesau ar draws Cymru i ddatblygu eu sgiliau.
- Rydym wedi buddsoddi mewn rhaglenni megis **Prifysgol Blaenau'r Cymoedd**, sy'n darparu cymysgedd o lwybrau galwedigaethol ac academaidd, gan gydweithio'n agos gydag unigolion, cyflogwyr a'r gymuned leol er mwyn siapia'r ddarpariaeth, er mwyn bodloni anghenion cyflogwyr.
- Mae'r **Gronfa Blaenoriaethau Sector** yn datblygu ac yn peilotio

cynlluniau prentisiaeth newydd i Gymru, gan ddarparu hyfforddiant penodol er mwyn bodloni galw cyflogwyr a gwella gwybodaeth am y farchnad lafur sectoraidd i gynnig darpariaeth sgiliau sy'n fwy ymatebol i gyflogwyr. Tan ddiwedd mis Gorffennaf 2013, roedd 3,215 o gyfranogwyr wedi cael budd o'r rhaglen, cynhaliwyd 21 o brosiectau ymchwil a chynorthwywyd 2,133 o gyflogwyr.

- Fel rhan o **Gronfa Ddysgu Undebau Cymru**, rydym wedi buddsoddi dros £13m er 1999 er mwyn cynorthwyo unigolion a chyflogwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu gweithgarwch ymgysylltu gyda dysgu.
- Bydd yr hyn a gynigir gennym o ran cyflogaeth a sgiliau yn y dyfodol, gan gynnwys cronfa hyblyg a fydd yn targedu cwmnïau pwysig ar lefel strategol, yn datblygu'r gwaith llwyddiannus gyda chyflogwyr er mwyn cynorthwyo'u twf a'u buddsoddiad. Ers 1 Ebrill 2013, mae 724 o fusnesau wedi ymuno â **Rhaglen Datblygu'r Gweithlu**, a rhagwelir y bydd 5,523 o swyddi yn cael eu creu, ac ar hyn o bryd, mae **Sgiliau Twf Cymru** yn cynorthwyo 129 o gwmnïau i hyfforddi 13,875 o gyflogeion.
- Rydym wedi datblygu **Porth Sgiliau** newydd a lansir yn 2014 i sicrhau un gwasanaeth ymgysylltu, asesu a chyfeirio i gyflogwyr sy'n dymuno manteisio ar gymorth sgiliau, a fydd yn cyd-fynd â'r cymorth ehangach sydd ar gael gan y llywodraeth i gyflogwyr ar draws Cymru trwy gyfrwng Busnes Cymru.
- Derbyniom argymhellion yr **Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed**, sy'n cyfrannu at weledigaeth a chyfeiriadau strategol mwy eglur ar gyfer cymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed.
- Yn ogystal, cyhoeddom y byddai **Adolygiad o Addysg Uwch a Chyllid i Fyfyrrwyr** eang yn cael ei gynnal, dan arweinyddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond.

C) Lle – Gwella ein Seilwaith

Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw'r prif gerbyd i gyflawni penderfyniadau buddsoddiad strategol Llywodraeth Cymru. Mae wedi llywio'r cydweithio ar draws y Llywodraeth ac yn ehangach gan ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o gyfleoedd ac anghenion o ran seilwaith. Mae hyn wedi cyflawni rôl catalydd i ysgogi aliniad rhwng y broses o flaenoriaethu ein buddsoddiadau mewn seilwaith, Rhaglenni Ewropeaidd a blaenoriaethau cyflawni ehangach Llywodraeth Cymru.

Ers cyhoeddi Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012, bydd dyraniadau cyfalaf ychwanegol a chymhellion cyllid arloesol yn darparu oddeutu £2bn o fuddsoddiad cyfalaf newydd yng ngwasanaethau cyhoeddus ac economi Cymru i roi hwb i'r twf hirdymor a chreu neu gynorthwyo swyddi.

Gwell Cysylltedd Trafnidiaeth

- Sicrhaom gyfranddaliad ym **Maes Awyr Caerdydd** ym mis Mawrth 2013, sy'n creu cyfle i ddatblygu cyfleuster hanfodol ar gyfer busnesau, twristiaid a'r cyhoedd yn ehangach.
- Yn ogystal, rydym wedi cymryd ystod o gamau gweithredu i wella **cysylltedd ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd**. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn gorsafoedd newydd, gwneud gwelliannau mewn gorsafoedd a gwelliannau a datblygiadau capasiti. Yn ogystal, rydym yn datblygu nifer o ymrwymadau i wella seilwaith ein ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i'r problemau yn ymwneud â chapasiti a chydnerthedd ar briffordd coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd.
- Rydym wedi sefydlu **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cludo Nwyddau** i roi cyngor am faterion strategol sy'n effeithio ar gludo nwyddau, gan ganolbwyntio ar ymyriadau allweddol sy'n angenrheidiol i gynorthwyo datblygiad Ardaloedd Menter a chanolfannau masnachol a busnes yn ehangach. Mae'r Grŵp yn cynnwys cymdeithasau cludo nwyddau allweddol a chynrychiolwyr diwydiant.
- Rydym yn newid sut ydym yn **cynllunio ac yn darparu gwasanaethau trafnidiaeth** ac yn targedu ac yn blaenoriaethu buddsoddiad; gan symud i fframwaith sy'n gwasanaethu anghenion busnesau, pobl a chymunedau mewn ffordd integredig, strategol a chynaliadwy.

Mwy o Gyfleoedd i Fanteisio ar Rwydweithiau Cyfathrebu o'r Radd Flaenaf

- Mae **Cyflymu Cymru** yn gweithio i roi'r cyfle i 96% o'r safleoedd yng Nghymru i fanteisio ar fand eang ffibr cyflym erbyn 2016, trwy gyfuno hyn gyda gweithgarwch cyflwyno masnachol.

Mwy o Gyfleoedd Cyflogaeth trwy gyfrwng Datblygiad Gofodol Strategol

- Rydym yn symud ymlaen gyda datblygu a chyflwyno **Dinas-ranbarthau** yn Ne Ddwyrain Cymru (Rhanbarth Prifddinas Caerdydd bellach) a Bae Abertawe. Mae hyn yn dilyn gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau. Hoffai'r ddau Ddinas-ranbarth weithio ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus, gan roi blaenoriaeth i'r prosiectau hynny sy'n rhai gwirioneddol drawsffurfiol. Eu man cychwyn, a ddylanwadwyd gan yr hyn a ddysgwyd gan Ddinas-ranbarthau llwyddiannus mewn mannau eraill, yw er bod twf economaidd yn anwastad ar lefel ofodol, y gall datblygiad fod yn gynhwysol ar lefel gymdeithasol, ar yr amod bod y Dinas-ranbarth yn meddu ar gysylltiadau da. Am y rhesymau hyn, mae cysylltedd yn flaenoriaeth allweddol yn y ddau Ddinas-ranbarth. Bydd eu cynnydd parhaus yn ysgogydd allweddol twf yn y dyfodol.
- Yng **Ngogledd Cymru**, gwnaethpwyd gwaith pellach ar ffurf Adroddiad Economi Trawsffiniol Rhanbarth Afon Dyfrdwy a sefydlu'r **Tasglu Gweinidogol ar Drafnidiaeth Gogledd Cymru**.

- Rydym yn parhau i sicrhau cynnydd o ran y broses o ddarparu **Ardaloedd Menter**. Mae'r Byrddau Ardaloedd Menter a arweinir gan y sector preifat, ac sydd wedi dylanwadu ar y cynllun a'r weledigaeth strategol ar gyfer pob Ardal Fenter, yn sail i'n camau gweithredu.
- Yn ogystal, mae gwaith yn cael ei wneud mewn **Ardaloedd Twf Lleol** ym Mhowys a Dyffryn Teifi. Cyhoeddodd **Tasglu Datblygu Busnes Casnewydd** ei ganfyddiadau interim ym mis Rhagfyr 2013 a dros y misoedd nesaf, bydd yn profi hyfywedd ei argymhellion, gan baratoi cynllun sy'n dynodi cyllid, partneriaid, amserlenni ac allbynnau posibl.
- Rydym wedi diwygio **Polisi Cynllunio Cymru** a pharatoi **Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd**, sy'n annog awdurdodau cynllunio lleol i weithio mewn ffordd strategol a chydweithredol i nodi tir ar gyfer cyflogaeth ac i lywio datblygiad a buddsoddiad ar gyfer y lleoliad mwyaf effeithlon a mwyaf cynaliadwy. Yn ogystal, byddwn yn paratoi Canllaw Ymarfer ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, er mwyn iddynt gynnal adolygiadau tir cyflogaeth a fydd yn cyfrannu at eu Cynlluniau Datblygu Lleol, sy'n berthnasol i'r amodau cyfredol yn y farchnad. Rydym wedi cyhoeddi gwaith ymchwil ynghylch Gorchmynion Datblygu Lleol a byddwn yn annog eu defnydd trwy baratoi arweiniad i arferion da a digwyddiadau lledaenu.
- Rydym yn buddsoddi £100m trwy gyfrwng rhaglen adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid mewn 11 o ganol trefi ar draws Cymru – gan greu swyddi trwy ddatblygu tai mewn canol trefi, darparu lleoedd ar gyfer busnesau newydd a gwella'r amodau ar gyfer gweithgarwch manwerthu.
- Gan gydnabod pwysigrwydd canol ein trefi fel canolfannau cyflogaeth a chynfnewid, rydym wedi cymryd nifer o gamau i'w cynorthwyo fel lleoliad ar gyfer busnesau. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fanwerthwyr Cymru, sy'n cynnig gostyngiad o hyd at £1,000 ar filiau ardrethi busnes safleoedd manwerthu, bwyd a diod y mae eu gwerth ardrethol dan £50,000.
 - Cynllun Ar Agor Am Fusnes, sy'n ceisio cynnig cymhelliant i ddeiliaid fanteisio ar eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir.
 - Ein cymorth ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes. Cyhoeddwyd naw ardal lwyddiannus ar draws Cymru, ac edrychwn ymlaen at fonitro'r rhain wrth i ni symud yn ein blaen.
- Yn ogystal, bydd nifer o gamau gweithredu sy'n ymwneud ag ardrethi busnes yn cynnig manteision i ganol trefi. Er enghraifft, yn ddiweddar, cyhoeddom estyniad i Gynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yng Nghymru. Mae ein dulliau gweithredu eraill megis Dinas-ranbarthau ac Ardaloedd Twf Lleol yn cydnabod pwysigrwydd canol trefi hefyd.

7. Canolbwyntio ar y Dyfodol

7.1 Mae'r economi wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud o ran polisi a chyflawni. Mae sefyllfa 'normal newydd' economi Cymru, sy'n deillio o'r newidiadau parhaus i'r amgylchedd economaidd, yn creu cyfle i ddwyn sylwedd ac eglurder o'r newydd i'n hymrwymiad i ddarparu swyddi a thwf.

7.2 Gan ddangos ein hymrwymiad yn hyn o beth, rydym yn datblygu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, a fydd yn ceisio cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer swyddi a thwf, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. Fel rhan o hynny, rydym yn datblygu ymagwedd polisi twf gwyrdd er mwyn datblygu ein gwaith presennol ar ddatblygu cynaliadwy a thwf economaidd ymhellach.

7.3 Yn ogystal, rydym yn adolygu ein Cynllun Busnes hefyd, gan ddangos pwyslais o'r newydd ar ymgysylltu ystyrion gyda'r gymuned fusnes. Byddwn yn parhau i ymgysylltu gydag arbenigedd y tu allan i'r Llywodraeth ac yn arbennig, gyda'r gymuned fusnes trwy gyfrwng cyrff cynghori a sefydlwyd gennym yn y sectorau allweddol ynghylch Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter, manteisio ar gyllid ac Ardaloedd Twf Lleol. Gwerthfawrogi'r cyngor a'r arbenigedd allanol hwn yn fawr ac mae'n hanfodol ar gyfer datblygiad polisi gyda'r nod o fodloni angen byd busnes. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r busnesau yr ydym yn eu cynorthwyo hefyd, er mwyn cynyddu eu mewnbwn i les economaidd Cymru gymaint ag y bo modd.

7.4 Ceir potensial i archwilio ymhellach y posibilrwydd o fanteisio ar arbenigedd y Partneriaid Cymdeithasol er mwyn datblygu ymagwedd gyffredin tuag at sgiliau arweinyddiaeth/strategol craidd, y maent yn berthnasol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

7.5 Bydd cyfleoedd sylweddol yn deillio o ymateb llawn Llywodraeth y DU i adroddiad cyntaf Comisiwn Silk – sy'n cadarnhau y bydd yn datganoli pwerau ariannol newydd i Gymru er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i roi hwb i economi Cymru. Yn ogystal, bydd y pwerau hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fenthycu er mwyn buddsoddi mewn prosiectau seilwaith newydd ar draws Cymru er mwyn cynorthwyo'r economi a swyddi. Bydd datganoli llawn ardrethi annomestig a datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn caniatáu i ni gynorthwyo busnesau yn y farchnad dai ymhellach hefyd.

7.6 Mae rôl y gymuned fusnes wedi bod yn hollbwysig yn y broses hon gan fod ei chefnogaeth ar gyfer diwygio ariannol wedi bod yn llais annibynnol pwerus wrth ddangos yr achos economaidd dros nifer o argymhellion Comisiwn Silk. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cynnal y cysylltiadau hynny gyda'r gymuned fusnes ac eraill wrth ddatblygu ein pwerau newydd i gynorthwyo twf, swyddi a phrosiectau seilwaith strategol mawr.

7.7 Bydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd dan y rhaglenni cyfredol a Rhaglen 2014/2020 yn offeryn allweddol er mwyn cynorthwyo busnesau ac economi Cymru yn ystod cyfnod y rhaglen nesaf. Defnyddir y cyllid hwn, a fydd yn gysylltiedig gyda phecynnau buddsoddi ehangach, er mwyn annog

cyflogaeth a buddsoddiad gan y sector preifat, gan helpu i gynyddu swyddi a thwf ar draws Cymru.

7.8 Yn ogystal, bydd cyfleoedd ar gael gan raglenni a reolir yn uniongyrchol gan UE, er enghraifft Horizon 2020, fel cyfle i brifysgolion a busnesau yng Nghymru i gystadlu am gyllid Ewropeaidd sylweddol er mwyn cynnal a manteisio ar waith ymchwil o safon byd. Yn ogystal, bydd cyfleoedd posibl er mwyn ariannu buddsoddiadau trafnidiaeth trwy gyfrwng rhaglen Cysylltu Ewrop ac er mwyn gwella gallu busnesau yng Nghymru i gystadlu trwy gyfrwng rhaglen newydd COSME.

7.9 Dros y cyfnod i ddod, bydd llygaid y byd ar Gymru hefyd – gan gychwyn wrth i ni gynnal Uwchgynhadledd NATO fis Medi eleni. Mae hwn yn gyfle gwych i arddangos ac i hyrwyddo Cymru ymhellach. Mae'r gallu i gynnal digwyddiadau mawr o'r fath yn allweddol er mwyn codi ein proffil rhyngwladol. Pan fo modd, byddwn yn ceisio datblygu synergeddau gyda'n sector twristiaeth fel ffordd o ddatblygu lle Cymru yn y byd ac wrth ddwyn y byd i Gymru fel lle i ymweld ag ef ac i wneud busnes.

7.10 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd parhaus iechyd i'r economi, o ran iechyd fel sector a manteision uniongyrchol gweithlu iach i fyd busnes. Mae'r sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i ddatblygu economaidd o ran buddsoddiadau cyfalaf, caffael nwyddau a gwasanaethau a chymorth ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesedd ehangach. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag amrediad o bartneriaid ar weithgarwch gwella iechyd, sy'n gallu arwain at fwy o effeithiolrwydd, cynhyrchiant a chystadleurwydd i fusnesau.

7.11 Mae mesur perfformiad yn hollbwysig i sicrhau bod y camau gweithredu i gynorthwyo busnesau ac economi Cymru yn cyflawni eu hamcanion a'u bod yn sicrhau'r buddion disgwylidig. Mae dangosyddion perfformiad yn gwella dealltwriaeth o effeithiolrwydd camau gweithredu a'u heffaith ar fusnesau a'r economi. Mae dangosyddion gan gynnwys mesurau allbwn economaidd, cynhyrchiant, incymau a'r farchnad lafur yn bwysig er mwyn deall y cyddestun ehangach a'r heriau mawr yn yr hirdymor.

7.12 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys dangosyddion olrhain, y pennir cynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol yn eu herbyn yn y tymor byrrach. Defnyddir y rhain i farnu a yw camau gweithredu yn perfformio yn ôl y gofyn i gyflawni yn erbyn y nodau hyn a rhoi rhybudd cynnar o broblemau posibl neu'r angen i addasu cyflawniad ar amcanion a blaenoriaethau allweddol. Yn ogystal, caiff rhaglenni unigol eu monitro er mwyn asesu gwerth ein hymyriadau penodol ac i nodi'r hyn maent yn cyflawni yn y tymor byr i ganolig. Byddwn yn parhau i adolygu'r dangosyddion hyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol i fesur cynnydd.